

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn **Answers to Questions not reached in Plenary**

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys **Contents**

- 1 Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog Cyllid
Questions on Finance to the Finance Minister
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog Cyllid **Questions on Finance to the Finance Minister**

Cyllid Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad **The Environment, Planning and Countryside Portfolio**

Q12 Helen Mary Jones: Will the Minister make a statement on the overall funding allocation to the environment, planning and countryside portfolio? OAQ0060(FIN)

The Finance Minister (Sue Essex): The overall funding allocated to the environment, planning and countryside portfolio represents more than 18 per cent of additional investment for the portfolio between 2004-05 and 2007-08.

C12 Helen Mary Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfanswm y cyllid a ddyrennir i gyllideb y portffolio Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad? OAQ0060(FIN)

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Mae cyfanswm y cyllid a neilltuwyd ar gyfer y portffolio amgylchedd, cynllunio a chefn gwlad yn cynrychioli mwy na 18 y cant o'r buddsoddiad ychwanegol ar gyfer y portffolio rhwng 2004-05 a 2007-08.

Diffygion mewn Pensiynau **Pension Shortfalls**

Q13 Owen John Thomas: Will the Minister make a statement on the likely pension shortfalls of any Assembly sponsored public bodies being absorbed by the Assembly Government? OAQ0066(FIN)

Sue Essex: The Welsh Development Agency and the Qualifications Curriculum and Assessment Authority for Wales are members of local authority pension schemes. The Wales Tourist Board is a member of the British Tourist Authority pension scheme. Each of these Assembly sponsored public bodies has budgetary provision to meet any additional annual contributions in accordance with requirements of the scheme trustees, who have been advised by the scheme actuaries. The National

C13 Owen John Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw ddiffygion sy'n debygol o fod ym mhensiynau staff CCNCau yn sgil uno'r cyrff â Llywodraeth y Cynulliad? OAQ0066(FIN)

Sue Essex: Mae Awdurdod Datblygu Cymru ac Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru yn aelodau o gynlluniau pensiwn awdurdodau lleol. Mae Bwrdd Croeso Cymru yn aelod o gynllun pensiwn Awdurdod Twristiaeth Prydain. Mae gan bob un o'r cyrff cyhoeddus hyn a noddir gan y Cynulliad y gyllideb i dalu am unrhyw gyfraniad blynyddol ychwanegol yn unol â gofynion ymddiriedolwyr y cynllun, sydd wedi'u cynghori gan actiwariaid y cynllun. Mae Cyngor

Council for Education and Training for Wales and the Welsh Language Board are members of the principal civil service pension scheme.

Cendlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant a Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn aelodau o brif gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil.

Y Portffolio Addysg a Dysgu Gydol Oes The Education and Lifelong Learning Portfolio

Q14 Janet Ryder: Has the Minister had any representations regarding the allocation of funding to the education and lifelong learning portfolio? OAQ0057(FIN)

C14 Janet Ryder: A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw sylwadau ynghylch yr arian a ddyrennir i'r portffolio Addysg a Dysgu Gydol Oes? OAQ0057(FIN)

Sue Essex: In preparing the Assembly's budget, I had numerous discussions with my Cabinet colleagues, individually and collectively. The final budget increases the education and lifelong learning overall allocation by more than 20 per cent between 2004-05 and 2007-08.

Sue Essex: Wrth baratoi cyllideb y Cynulliad, cefais nifer o drafodaethau gyda'm cyd-Aelodau yn y Cabinet, yn unigol ac ar y cyd. Mae'r gyllideb derfynol yn cynyddu dyraniad cyffredinol addysg a dysgu gydol oes gan fwy nag 20 y cant rhwng 2004-05 a 2007-08.

*Tynnwyd cwestiwn 15 OAQ0046(FIN) yn ôl.
Question 15 OAQ0046(FIN) withdrawn.*

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

Y Defnydd o Safleoedd Tir Llwyd yng Nghanol De Cymru The Use of Brownfield Sites in South Wales Central

Q14 David Melding: Will the Minister make a statement on the use of brownfield sites in South Wales Central? OAQ0111(EPC) *Transferred for written answer.*

C14 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y defnydd o safleoedd tir llwyd yng Nghanol De Cymru? OAQ0111(EPC) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): The Assembly Government's policy is to encourage the use of brownfield sites wherever possible in preference to greenfield land. This policy supports our aim of delivering sustainable development and applies across the whole of Wales, including South Wales Central.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): Polisi Llywodraeth y Cynulliad yw defnyddio safleoedd tir llwyd yn hytrach na safleoedd tir glas lle bynnag y bo modd. Mae'r polisi hwn yn ategu ein nod, sef cyflawni ym maes datblygu cynaliadwy ac mae hynny'n gymwys ledled Cymru, gan gynnwys Canol De Cymru.

*Atebwyd cwestiwn 15 OAQ0120(EPC) yn y Cyfarfod Llawn.
Question 15 OAQ0120(EPC) answered in Plenary.*